Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Ansawdd a Safonau mewn Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Adroddiad arolygiad ardal ar ansawdd a safonau Darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghaerffili

Ionawr a Chwefror 2009

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyflwyniad

Mae Estyn yn cynnal arolygiadau ardal o dan adran 83 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae hon yn nodi os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn iddi wneud hynny, rhaid i'r Prif Arolygydd yng Nghymru arolygu:

(a) ansawdd ac argaeledd disgrifiad penodol o addysg neu hyfforddiant, mewn ardal benodol yng Nghymru, ar gyfer y sawl sy'n 15 oed[1] neu'n hŷn;

(b) y safonau a gyflawnir gan y rheiny sy'n derbyn yr addysg neu'r hyfforddiant hwnnw; ac

(c) a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rheiny sy'n darparu'r addysg neu'r hyfforddiant hwnnw'n cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian.

Gall y Prif Arolygydd gynnal arolygiad o'r fath hefyd heb dderbyn cais gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Adran 84 y Ddeddf yn rhoi pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo awdurdod addysg lleol (AALl) y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn yr ardal y mae'r adroddiad yn ymdrin â hi i baratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni adroddiad arolygiad ardal a gyhoeddwyd gan y Prif Arolygydd. Wrth baratoi datganiad o'r fath, mae'n rhaid i'r AALl ymgynghori gyda phersonau y gall y Cynulliad Cenedlaethol eu nodi. Mae'n rhaid cyhoeddi'r cynllun gweithredu o fewn 50 diwrnod. Bydd Estyn yn arfarnu'r cynllun gweithredu ac yn ei gymeradwyo os yw'n amlwg yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad ac yn nodi sut y gellir cyflawni gwelliant. Hwyrach y bydd Estyn hefyd yn gofyn i ddarparwyr penodol baratoi cynlluniau gweithredu mewn perthynas â materion sydd o fewn eu cyfrifoldeb. Mae'n rhaid i'r ALl roi copi o'r cynlluniau gweithredu i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cynhelir arolygiadau gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a/neu arolygwyr ychwanegol. Mae enwebai sy'n cynrychioli'r darparwyr hefyd yn aelod o'r tîm arolygu, ond nid yw'r enwebai yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch graddio.

Defnyddiodd y tîm arolygu'r fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer yr arolygiad ardal, wedi'i gefnogi gan lawlyfrau arweiniad ar gyfer arolygiadau ardal ac ar gyfer pob sector a arolygwyd. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

[1] Mae Adran 83 (11) yn nodi bod 'personau sy'n 15 oed neu'n hŷn' yn cynnwys personau y mae addysg yn cael ei darparu ar eu cyfer mewn ysgol y byddant yn cyrraedd yr oedran hwnnw yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol.

Mae Estyn yn cymhwyso un o'r graddau canlynol i bob cwestiwn allweddol yn y fframwaith arolygu cyffredin:

Gradd 1	Da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	Llawer o ddiffygion pwysig

Gan nad oes unrhyw arsylwi uniongyrchol o addysgu a hyfforddiant mewn arolygiad ardal, ni fydd yr adroddiad yn cynnwys adran ar Gwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Yn yr adroddiad hwn, mae'r rhwydwaith yn cyfeirio at yr holl ddarparwyr, gan gynnwys ysgolion a cholegau, yng Nghaerffili, ac mae 'uned' yn cyfeirio at Uned Ddatblygu 14-19 Caerffili.

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun **1**

Crynodeb **3**

Argymhellion **6**

Safonau **7**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 7

Ansawdd addysg a hyfforddiant **9**

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 9

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 11

Arweinyddiaeth a rheolaeth **14**

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 14

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 16

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 17

Ymateb y darparwr i'r arolygiad **19**

Atodiad 1 Sail dystiolaeth yr arolygiad

Atodiad 2 Trefn rhwydwaith 14-19 Caerffili

Atodiad 3 Y tîm arolygu

Cyd-destun

Nodweddion cymdeithasol ac economaidd

1 Bu cynnydd o bron i 6% yn nifer y bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed yng Nghaerffili rhwng 1991 a 2006, ond yn ystod y degawd nesaf disgwylir gostyngiad o ryw 10%. Ychydig dros 8% o boblogaeth Caerffili sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

2 Mae gan Gaerffili lefel gymharol uchel o amddifadedd. Mae canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim y chweched uchaf o blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae tri chwarter o'r awdurdod lleol wedi'i gynnwys yn y 50% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er bod gan Gaerffili ardaloedd o amddifadedd mawr, nid oes ynddo grynoadau mawr o amddifadedd uchel iawn o gymharu ag awdurdodau eraill yn ne-ddwyrain Cymru neu ar draws Cymru gyfan.

3 Mae gan gyfran uwch o oedolion oed gwaith fedrau llythrennedd a rhifedd ar lefel mynediad wrth eu cymharu â'r cyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol. Nid oes gan ryw 21% o'r boblogaeth unrhyw gymwysterau o gymharu â 15% ar gyfer Cymru gyfan. Y ffigur hwn yw'r ffigwr cydradd uchaf ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

4 Er bod y cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn waeth na'r cyfartaledd i Gymru, maen nhw'n well na'r cyfraddau ar gyfer cymoedd eraill de Cymru. Mae cyflogau cyfartalog yn is na chyfartaledd Cymru ac ymhlith yr isaf yng nghymoedd de Cymru. Mae cyfrannau cymharol uwch o bobl yng Nghaerffili mewn swyddi â llaw neu swyddi di-grefft o gymharu â Chymru gyfan. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi yn y sectorau cynhyrchiant ac adeiladu, ac mae llai o swyddi yn y diwydiant gwasanaethau o gymharu â Chymru gyfan.

Patrwm y ddarpariaeth

5 Mae tua 9,500 o bobl ifanc 14 i 19 oed yn byw yng Nghaerffili. O'r rhai 16 i 18 oed sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant, addysgir tua 50% mewn sefydliadau addysg bellach, 29% mewn ysgolion uwchradd neu ysgolion arbennig a 21% mewn dysgu yn y gwaith. O'r dysgwyr ôl-16 oed sy'n astudio lefel Uwch mae ychydig dros hanner ohonynt mewn dosbarthiadau chwech ysgolion ac mae'r gweddill mewn un o'r ddau goleg addysg bellach. Mae tua 11% o ddysgwyr yn mynychu ysgolion y tu allan i'r ardal, rhai ffydd neu gyfrwng Cymraeg yn bennaf. Mae ychydig o ddysgwyr yn teithio y tu allan i Gaerffili er mwyn mynychu darpariaeth addysg bellach neu ddysgu yn y gwaith.

6 Mae 14 o ysgolion uwchradd yng Nghaerffili. Mae dosbarthiadau chwech gan naw o'r ysgolion hyn, gan gynnwys un ysgol cyfrwng Cymraeg ac un ysgol sylfaen. Mae'r pum ysgol sy'n weddill ar gyfer disgyblion 11 i 16 oed. Mae un ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer plant a phobl ifanc 3 i 19 oed. Mae gan yr awdurdod lleol ychydig dros 2,300 o leoedd dros ben yn ei ysgolion. Mae hyn yn cyfateb i 15.7% o leoedd dros ben, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.

7 Mae'r ardal wedi'i threfnu yn dair partneriaeth. Trwy gydol yr adroddiad cyfeirir at y ddarpariaeth gydweithredol yn ôl yr enwau y mae rhwydwaith Caerffili wedi'u rhoi iddynt. Cyfeirir at y ddwy ardal sydd ag ysgolion i blant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed fel ardal neu bartneriaeth blaenau cwm Rhymni neu ardal basn neu bartneriaeth Caerffili. Cyfeirir at yr ardal sy'n weddill (ac ynddi ysgolion 11 i 16 oed yn bennaf) fel ardal neu bartneriaeth Islwyn. Mae darpariaeth gydweithredol cyfnod allweddol 4 ym mhob un o'r tair partneriaeth. Mae'r ysgol cyfrwng Cymraeg yn cydweithredu yng nghyfnod allweddol pedwar ac ôl-16 oed gydag ysgol cyfrwng Gymraeg mewn awdurdod cyfagos.

8 Mae dau goleg addysg bellach yng Nghaerffili. Mae Coleg Ystrad Mynach yn darparu ystod eang o gyrsiau ac yn cydweithio â phartneriaethau blaenau cwm Rhymni a basn Caerffili. Mae campws Cross Keys, a leolir yng Nghaerffili, yn un o chwe champws Coleg Gwent. Mae Coleg Gwent yn darparu ystod eang o gyrsiau ac yn cynrychioli'r ddarpariaeth drydyddol ar gyfer ysgolion 11 i 16 oed ym mhartneriaeth Islwyn.

9 Mae nifer fawr o ddarparwyr yn cynnig dysgu yn y gwaith yn yr ardal er mai nifer fach ohonynt sydd â'u pencadlys yng Nghaerffili. Mae'r prif ddarparwyr yn cynnwys ACT, Rathbone, A4E, Talk Training, Coleg Gwent a Choleg Ystrad Mynach. Mae Educ8 a Protocol Skills wedi'u lleoli yng Nghaerffili. Gyda'i gilydd, maen nhw'n darparu ystod o ddysgu yn y gwaith sy'n cynnwys Prentisiaethau Modern Sylfaen, Prentisiaethau Modern, Diploma Sgiliau Modern, dysgu yn y gwaith i oedolion, Adeiladu Sgiliau[2] a chyrsiau paratoi am waith.

10 Ym mis Medi 2007, sefydlodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili uned ddatblygu 14-19 oed. Mae'r uned yn gyfrifol am arwain a rheoli'r datblygiadau 14-19 oed yn yr ardal. Mae gan yr uned dri aelod staff sy'n gyfrifol am arwain a chydlynu'r gwaith, a dau aelod staff gweinyddol cynorthwyol. Goruchwylir y gwaith gan y rhwydwaith ardal lleol ac mae grŵp o uwch reolwyr yn trefnu materion gweithredol. Mae gan bob un o'r tair ardal bartneriaeth grŵp rheoli o benaethiaid ac uwch aelodau staff o'r colegau. Mae gan y rhwydwaith nifer o grwpiau 'gorchwyl a gorffen' sy'n ymdrin â materion penodol. Mae trefn y rhwydwaith i'w weld yn yr atodiadau.

Cyfranogiad pobl ifanc 16 i 19 oed mewn addysg a hyfforddiant

11 Mae graddfa cyfranogiad pobl ifanc 16 i 19 oed mewn addysg a hyfforddiant yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae tua 83% o ddysgwyr 16 oed yn parhau mewn addysg amser llawn neu hyfforddi o gymharu ag 85% ar gyfer Cymru gyfan. Mae hanner y rhain yn mynd ymlaen i addysg bellach. Nifer fach o bobl ifanc yn unig sy'n dechrau gweithio heb hyfforddiant. Canran y bobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yw 7.1% o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, sef 6.9%.

[2] Rhaglenni yw Adeiladu Sgiliau ac Adeiladu Sgiliau a Mwy sy'n cynorthwyo pobl ifanc ac oedolion i ymgymryd â sesiynau blas ar waith a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gael mynediad at waith neu lefelau uwch o hyfforddiant.

Crynodeb

Tablau o'r graddau a ddyfarnwyd ar gyfer y chwe chwestiwn allweddol

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	3
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	3
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	3
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	3
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

12 Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad dysgwyr yng Nghaerffili wedi gwella, ond mae o hyd yn un o'r awdurdodau yng Nghymru sy'n perfformio waethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae'r rheiny yng Nghaerffili yn perfformio islaw'r meincnodau disgwyliedig.

13 Yn y cyfnod ôl-16, mae dysgwyr mewn ysgolion a cholegau sy'n astudio pynciau lefel Uwch yn perfformio'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'n well na'r disgwyl o gymharu â'u perfformiad mewn arholiadau TGAU. Yn y colegau, mae'r cyfraddau cwblhau a chyflawniad cyffredinol yn uwch na'r cymaryddion cenedlaethol. Mewn dysgu yn y gwaith, mae cyrhaeddiad dysgwyr yn dda ar y cyfan ac mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn symud i raglenni lefelau uwch.

14 Mae cyfradd cyfranogi dysgwyr ôl-16 mewn addysg amser-llawn a dysgu yn y gwaith wedi gwella yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ac mae'n dda ar y cyfan. Mae cyfran y bobl ifanc 16 i 19 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEETs) wedi gwella yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n agos at gyfartaledd Cymru.

15 Yng nghyfnod allweddol 4, nid oes digon o gyrsiau galwedigaethol ar lefel 2 i ganiatáu'r holl ddysgwyr i ddilyn cyrsiau sy'n addas i'w hanghenion a'u dyheadau. Mae ysgolion yn darparu ystod eang o gyrsiau cyffredinol a nifer gynyddol o gyrsiau galwedigaethol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau naill ai ar lefel mynediad neu lefel 1 ac mae mynediad atynt yn amrywio llawer gormod rhwng ysgolion.

16 Yn y cyfnod ôl-16, mae gan ddysgwyr fynediad at ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol ar draws y pum maes[3]. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr yr hyblygrwydd i ddewis cyfuniad o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol.

[3] Mae pum maes: mathemateg, gwyddoniaeth a phob agwedd ar dechnoleg; busnes a rheoli; gwasanaethau i bobl; y celfyddydau creadigol a diwylliant; a'r dyniaethau ac ieithoedd. .

17 Mae bron yr holl ysgolion 11 i 18 oed yn cydweithio ag ysgolion a cholegau eraill i gyflwyno ystod eang o gyrsiau ar gyfer dysgwyr 16 i 19 oed. Mae partneriaethau blaenau cwm Rhymni a basn Caerffili wedi ehangu dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr drwy gwricwlwm ar y cyd a gefnogir gan amserlen gyffredin. Mae Coleg Gwent yn cydweithredu'n dda gyda'i ysgolion partner 11 i 16 oed yn ardal Islwyn. Fodd bynnag, nid oes partneriaeth adeg ôl-16 rhwng y coleg a'r unig ysgol 11 i 18 oed yn ardal Islwyn.

18 Mae darpariaeth dda iawn ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg drwy gydweithio da ag ysgol cyfrwng Cymraeg arall mewn awdurdod cyfagos. Mae'r ysgol eisoes yn diwallu'r gofynion disgwyliedig ar gyfer cyfnod allweddol 4 y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)[4] yn llawn.

19 Mae ansawdd ac ystod y cwricwlwm sydd ar gael i ddysgwyr yn yr ysgol arbennig yn dda iawn.

20 Mae darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghaerffili gyda'i gilydd yn cynnig ystod eang o raglenni ar lefelau priodol ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd dilyniant priodol.

21 Mae'r rhan fwyaf o hyfforddwyr dysgu a gyflogir yn ganolog yn darparu cefnogaeth bersonol effeithiol i ddysgwyr ar gyrsiau cydweithredol yng nghyfnod allweddol 4, yn ogystal â darparu cefnogaeth dda i ddysgwyr sy'n cael eu haddysg ar wahân i yn yr ysgol (EOTAS). Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr 14 i 19 oed yn gwybod digon am eu hawliau i gael mynediad at hyfforddwr dysgu. Mae hyn yn wir yn enwedig yn achos dysgwyr ar lwybrau dysgu yn y gwaith.

22 Mae'r holl ddysgwyr yn elwa o gefnogaeth bersonol dda trwy ofal bugeiliol sefydledig a threfniadau lles personol gan yr holl ddarparwyr. Mae darparwyr wedi datblygu partneriaethau addas gydag ystod eang o wasanaethau allanol i gefnogi a rhoi cyfarwyddyd i ddysgwyr.

23 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael cyngor a chyfarwyddyd o ansawdd addas wrth ddewis opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 ac adeg ôl-16. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn cael digon o fynediad at gyngor a chyfarwyddyd diduedd. Yn y cyfnod ôl-16, mae dysgwyr yn ardal Islwyn, lle mae'r ddarpariaeth yn drydyddol, yn gyffredinol yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am opsiynau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr mewn ardaloedd eraill o Gaerffili yn cael gwybodaeth ddigon da am yr ystod gyfan o gyfleoedd. Mae Gyrfa Cymru yn darparu cefnogaeth dda i athrawon a rheolwyr mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn canfod nad yw'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan swyddogion Gyrfa Cymru yn cyd-fynd â'u hanghenion a'u dyheadau.

24 Ar y cyfan, mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth dda. Yn gyffredinol, mae trefniadau da i sicrhau lles dysgwyr pan fyddant ar gyrsiau cydweithredol.

---

[4] Ar hyn o bryd, mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y mesur yn pennu'r nifer a'r mathau o opsiynau a ddylai fod ar gael i bobl ifanc 14 i 16 oed ac i bobl ifanc 16 i 18 oed.

25 Mae Caerffili wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu Llwybrau Dysgu 14-19 oed mewn amgylchiadau cymhleth ac anodd o bosibl. Oherwydd materion brys adeg ôl-16 oed, penderfynodd y rhwydwaith weithio yn y maes hwn yn gyntaf. O ganlyniad, bu llawer mwy o gynnydd o ran gwella safonau a darpariaeth cwricwlwm adeg ôl-16 oed nac yng nghyfnod allweddol 4.

26 Mae cyfarwyddyd strategol cryf a gweledigaeth glir yn gyrru'r gwaith o gyflwyno Llwybrau Dysgu 14-19 oed. Bu cryn dipyn o gynnydd o ran sefydlu partneriaethau cadarn a darpariaeth gydweithredol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r rhwydwaith wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer diwallu holl ofynion disgwyliedig y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru).

27 Mae lle clir a sylweddol i'r uned yn strwythurau a systemau'r awdurdod lleol, ac mae cynlluniau diogel i'w hymgorffori mewn gwasanaethau prif ffrwd. Mae'r uned yn gweithio'n dda ac yn rhoi cyfeiriad, cefnogaeth a her. Mae wedi sefydlu trefniadau rheoli a chynllunio effeithiol ac effeithlon ar gyfer cyflwyno Llwybrau Dysgu 14-19 oed trwy weithio'n gydweithredol.

28 Mae'r holl ysgolion, y ddau goleg ac ychydig o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn cymryd rhan lawn yng ngwaith strategol a gweithredol y rhwydwaith. Mae'r perthnasoedd rhwng darparwyr yn dda ar y cyfan, ond, mewn ychydig o ddarparwyr, nid yw gweithio mewn partneriaeth wedi'i ymgorffori'n llwyr eto.

29 Mae'r rhwydwaith yn sefydlu systemau cyffredin ar gyfer hunanarfarnu gweithgareddau'r rhwydwaith. Yn gyffredinol, ar hyn o bryd, mae gan ddarparwyr unigol weithdrefnau mewnol da ar gyfer hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer arfarnu'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd yn hollol weithredol eto. Yn ogystal, nid yw'r holl ddarparwyr yn monitro safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer eu dysgwyr yn ddigon manwl pan fo dysgwyr mewn sefydliadau partner.

30 Yn gyffredinol, mae'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol (CDRhB) yn offeryn addas ar gyfer cynllunio gwelliant. Mae'n darparu cyfeiriad strategol ac yn nodi ystod addas ac eang o weithgareddau cydweithredol addas.

31 Yng nghyfnod allweddol 4, mae gwerth am arian digonol sy'n gwella. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 oed mewn ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cynnig gwerth da am arian gan fod effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd wedi gwella. Mae'r ddarpariaeth drydyddol yn ardal Islwyn yn gost-effeithiol iawn. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gweithio cydweithredol wedi arwain at welliant sylweddol yn effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth.

32 Mae gan yr awdurdod lleol ymrwymiad strategol cryf i waith yr uned. Mae'r uned yn rhan o'i strategaeth adfywio ac mae wedi'i hintegreiddio'n llawn i wasanaethau'r awdurdod lleol i gefnogi gwella ysgolion.

Argymhellion

33 Er mwyn gwella safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghaerffili, mae angen i'r awdurdod lleol a darparwyr addysg a hyfforddiant gydweithio i:

A1 wella ymhellach y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;

A2 galluogi dysgwyr i ddewis o ystod ehangach o lwybrau dysgu drwy:

- ymestyn yr ystod o gyrsiau galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4; yn enwedig ar lefel 2; a
- sicrhau y gall yr holl ddysgwyr gael mynediad at yr ystod gyfan o gyrsiau sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y cyfnod ôl-16 fel ei gilydd;

A3 datblygu trefniadau cydweithredol rhwng Coleg Gwent ac Ysgol Uwchradd Cwm-carn yn y cyfnod ôl-16 er mwyn ehangu'r cyfleoedd i'r holl ddysgwyr;

A4 sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr fynediad llwyr at wybodaeth gynhwysfawr, yn enwedig ym masn Caerffili ac ym mlaenau cwm Rhymni, ac i gyngor a chyfarwyddyd diduedd am eu hopsiynau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y cyfnod ôl-16;

A5 gwneud hyfforddwyr dysgu yn fwy hygyrch i'r holl ddysgwyr 14 i 19 oed, yn enwedig y rheiny mewn dysgu yn y gwaith; a

A6 sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn monitro safonau a darpariaeth ar gyfer eu dysgwyr ôl-16 oed pan fyddant mewn sefydliadau partner (darpariaeth gydweithredol).

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

34 Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyrhaeddiad dysgwyr Caerffili yn ystod y tair blynedd ddiwethaf wedi gwella ar gyfradd ychydig yn gyflymach nac ar gyfer Cymru gyfan, ac mae perfformiad Caerffili ar gyfer llawer o'r dangosyddion wedi gwella o gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, mae Caerffili yn parhau i fod yn un o'r awdurdodau sydd â'r perfformiad waethaf yng Nghymru. Mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn yn ôl yr holl ddangosyddion yn fwy nag ydyw ar gyfer Cymru gyfan.

35 Os caiff yr hawl i brydau ysgol am ddim ei ystyried, mae perfformiad cyffredinol ysgolion Caerffili islaw'r gwerth disgwyliedig a gafodd ei gyfrifo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ystod y cyfnod 2005 i 2007, roedd canran y dysgwyr yng Nghaerffili a gyflawnodd bum gradd A* i C neu fwy, a'u sgôr pwyntiau cyfartalog, yn sylweddol is na'r disgwyl. Cafwyd gwelliant yn 2008, ond er hynny, ar gyfer bron yr holl brif ddangosyddion, roedd wyth o'r pedair ysgol ar ddeg yn yr hanner isaf ar gyfer ysgolion tebyg.

36 Yn 2008, roedd canran dysgwyr Caerffili a adawodd addysg amser llawn heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig wedi gwella cryn dipyn. Roedd wedi disgyn o 2.3% yn 2007 i 1.6% yn 2008 ac mae bellach yn agos i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae canran y merched sy'n ennill cymhwyster cydnabyddedig yn well na chyfartaledd Cymru i ferched ond mae'r canran ar gyfer bechgyn islaw'r cyfartaledd.

37 Yn y cyfnod ôl-16, mae dysgwyr mewn ysgolion a cholegau sy'n sefyll arholiadau lefel uwch yn perfformio'n dda. Mae'r canran sy'n ennill y trothwy lefel 3 wedi bod ymhlith yr uchaf yng Nghymru am y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn 2008, 96.3% oedd y ffigwr o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 94.2%. Dengys gwybodaeth gwerth ychwanegol bod y dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd cyson o gyfnod allweddol 4 i lefel Uwch.

38 Yn y sector addysg bellach, mae'r cyfraddau cyffredinol y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill cymwysterau arnynt yn uwch na'r cymaryddion cenedlaethol. Dengys sgorau gwerth ychwanegol bod dysgwyr ar gyrsiau lefel Uwch yn cyrraedd graddau ar lefel uwch na'r disgwyl o gymharu â'u cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4. Mae canlyniadau'r ychydig ddysgwyr yn y colegau sy'n dilyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefelau sylfaenol a chanolradd yn dda.[5]

39 Mewn dysgu yn y gwaith, mae cyrhaeddiad dysgwyr yn gyffredinol dda ac mae'r mwyafrif ohonynt yn symud i raglenni lefel uwch. Yn y ddarpariaeth addysg bellach ar gyfer dysgu yn y gwaith, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyrraedd fframweithiau cymwysterau llawn arnynt yn dda.

[5] Nid yw dysgwyr yn yr ysgolion sy'n ymwneud â chymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi cwblhau eu cyrsiau eto.

40 Yn gyffredinol, yn y colegau addysg bellach, mae'r cyrhaeddiad mewn cymwysterau medrau allweddol yn dda. Mae'r perfformiad hwn yn uwch na'r cymaryddion cenedlaethol ar gyfer lefel 1 a lefel 2, ac yn agos at y cymharydd cenedlaethol ar gyfer lefel 3. Mae'r cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer medrau allweddol mewn lleoliadau dysgu yn y gwaith yn dda yn gyffredinol ac maent wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae rhy ychydig o ddysgwyr mewn ysgolion yn ennill cymwysterau mewn medrau allweddol.

41 Mae cyfranogiad dysgwyr ôl-16 oed mewn addysg amser llawn a dysgu yn y gwaith wedi gwella yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ac mae'n dda yn gyffredinol. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae'r canran sy'n cyfranogi mewn addysg amser llawn mewn ysgolion a cholegau wedi codi 72.6% i 79.2%. Mae cyfran y bobl ifanc 16 i 19 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEETs) wedi gwella yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n agos at gyfartaledd Cymru. Mae'r cyfraddau cyfranogiad mewn gweithgareddau anffurfiol yn uchel ac mae dysgwyr yn ennill lefel dda o gymwysterau nad ydynt yn gymwysterau ffurfiol.

42 Mae presenoldeb yn ysgolion uwchradd Caerffili wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae'n parhau i fod yn is na llawer o awdurdodau eraill ar draws Cymru. Mae presenoldeb mewn addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn dda.

43 Mae cyfradd gwaharddiadau parhaol i ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd wedi gwella'n sylweddol yn 2007 ac mae'n well na chyfartaledd Cymru[6]. Mae cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol yn gwella hefyd. Fodd bynnag, mae nifer gyfartalog y dyddiau a gollir i waharddiadau yr ail uchaf yng Nghymru.

[6] Mae'r ffigurau swyddogol diweddaraf ar gyfer y flwyddyn ysgol 2006-2007.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

44 Yn gyffredinol, caiff dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghaerffili fynediad at ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Yn arbennig, bu cynnydd da o ran ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr 16 i 19 oed sy'n aros mewn dosbarthiadau chwech ysgolion. Mae ystod ddigonol ond gynyddol o gyfleoedd i ddysgwyr 14 i 16 oed, er bod diffygion yn yr ystod o opsiynau galwedigaethol sydd ar gael ac o ran mynediad dysgwyr atynt.

45 Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgolion yn darparu ystod eang o gyrsiau ym mhedwar o'r pum maes, ond ychydig o gyfleoedd sydd yn y maes busnes a rheoli. O 2007, dechreuodd dwy ysgol ddarparu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr 14 i 16 oed.

46 Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yng nghyfnod allweddol 4, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y cyrsiau galwedigaethol a gynigir ar lefel mynediad a lefel 1, ond mae mynediad atynt o ysgol i ysgol yn amrywio llawer gormod. Mae'r ddau goleg yn cyfrannu'n effeithiol i'r ddarpariaeth hon drwy gynnig pedwar cwrs cyswllt galwedigaethol ym masn Caerffili a thri chwrs ym mlaenau cwm Rhymni ac ardal Islwyn. Ar hyn o bryd, nid oes digon o gyrsiau galwedigaethol ar lefel 2. Mae tair ysgol eisoes yn cwrdd â gofynion anstatudol disgwyliedig y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar gyfer 2009. Mae'r ysgolion sy'n weddill mewn sefyllfa dda i ymestyn nifer y cyrsiau galwedigaethol lefel 2 er mwyn diwallu'r disgwyliad statudol ar gyfer 2010.

47 Yn yr 11 ysgol sy'n darparu cyrsiau galwedigaethol lefel 2 yn ogystal â chyrsiau lefel mynediad a lefel 1, mae gan ddysgwyr yr hyblygrwydd i ddewis cyfuniad o gyrsiau cyffredinol a chyrsiau galwedigaethol.

48 Caiff anghenion dysgwyr sy'n cael eu haddysg ar wahân i yn yr ysgol (EOTAS) eu bodloni'n dda iawn trwy ystod eang o lwybrau hyblyg. Mae'r colegau'n cydweithio'n dda â'r rhwydwaith i gefnogi darpariaeth rhaglen Llwybrau Gweithredol[7]. Mae llawer o ddysgwyr ar y rhaglen hon yn symud ymlaen yn llwyddiannus i gyrsiau amser llawn yn y colegau.

49 Yn y cyfnod ôl-16, caiff dysgwyr fynediad at ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol ar lefelau priodol ar draws y pum maes. Mae'r ddau goleg yn cynnig ystod dda o gyrsiau galwedigaethol gyda llwybrau dilyniant ym mhob un o'r pum parth. Gall y dysgwyr hynny ym masn Caerffili a blaenau cwm Rhymni sy'n penderfynu aros yn chweched dosbarth eu hysgol ddewis o 43 o gyrsiau sydd ar gael ar draws y ddwy bartneriaeth.

[7] Mae Llwybrau Gweithredol yn darparu ystod eang o addysg nad yw'n seiliedig yn yr ysgol a chyfleoedd dysgu ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 4 sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu ag addysg prif-ffrwd.

50 Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr yr hyblygrwydd i ddewis cyfuniad o gyrsiau cyffredinol a chyrsiau galwedigaethol. Mae'r ddau goleg a thros hanner yr ysgolion 11 i 18 oed yn darparu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr ôl-16 oed.

51 Mae bron pob un o'r ysgolion 11 i 18 oed yn cydweithio ag ysgolion eraill a cholegau i gyflwyno ystod eang o gyrsiau i ddysgwyr 16 i 19 oed. Mae partneriaethau blaenau cwm Rhymni a basn Caerffili wedi ehangu'r dewis a'r hyblygrwydd i ddysgwyr drwy gwricwlwm ar y cyd a gefnogir gan amserlen gyffredin. Mae prosbectysau ar gyfer y ddwy bartneriaeth yn amlinellu'r cyrsiau sydd ar gael i naill ai dysgwyr ysgol neu goleg, ond nid ydynt yn cynnwys yr ystod gyfan o gyrsiau yn y coleg. Yn ogystal, nid yw prosbectws a gwefan Coleg Ystrad Mynach yn cynnwys y cyrsiau a ddarperir gan yr ysgolion.

52 Mae Coleg Gwent yn cydweithredu'n dda â'i ysgolion partner 11 i 16 oed yn ardal Islwyn. Mae cydweithio yn cefnogi'r ddarpariaeth o ran cyrsiau galwedigaethol 14 i 16 oed ac mae gweithio partneriaeth cryf. Fodd bynnag, nid oes partneriaeth ôl-16 oed rhwng y coleg a'r unig ygsol 11 i 18 oed yn ardal Islwyn. Nid oes prosbectws ar y cyd ar gyfer yr holl ddysgwyr ôl-16 oed yn ardal Islwyn.

53 Mae darpariaeth dda iawn ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgol cyfrwng Cymraeg yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag ysgol cyfrwng Cymraeg arall mewn awdurdod cyfagos i ddarparu ystod eang a chynyddol o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16 oed. Maen nhw'n defnyddio fideo-gynadledda ac mae'r aelodau staff yn teithio rhwng ysgolion i ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr. Mae'r ysgol cyfrwng Cymraeg eisoes yn diwallu gofynion disgwyliedig cyfnod allweddol 4 Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn llawn.

54 Mae ansawdd y cwricwlwm sydd ar gael i ddysgwyr yn yr ysgol arbennig yn dda iawn. Mae dysgwyr yn derbyn cwricwlwm addas o eang. Gall dysgwyr ôl-16 oed ddewis rhwng pedwar llwybr galwedigaethol perthnasol ar lefel mynediad neu ar lefel cynfynediad. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn symud ymlaen i ddilyn cyrsiau coleg pan fyddant yn 19 oed.

55 Mae darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghaerffili gyda'i gilydd yn darparu ystod eang o raglenni ar lefelau priodol i bobl ifanc 16 i 19 oed. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd priodol ar gyfer dilyniant.

56 Mae gan yr holl ddysgwyr fynediad at ystod eang o weithgareddau heb fod yn ffurfiol a gweithgareddau anffurfiol o ansawdd da. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chwaraeon, byw'n iach, diwylliant Cymru, medrau bywyd a hamdden. Caiff dysgwyr yn y ddarpariaeth EOTAS lawer o gyfleoedd i ennill cymwysterau nad ydynt yn ffurfiol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol.

57 Mae'r holl ddarparwyr yn sicrhau eu bod yn diwallu'r rhan fwyaf o safonau gofynnol agwedd medrau y craidd dysgu. Yn gyffredinol, mae darpariaeth addas ar gyfer medrau allweddol yn yn cyfnod ôl-16 oed, yn enwedig yn y colegau, ond nid oes digon o gynnydd o ran ymgorffori medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

58 Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer medrau iaith Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 ym mron pob un o'r ysgolion, er nid yw'r ddarpariaeth mewn un ysgol yn diwallu'r gofynion statudol. Nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau iaith Gymraeg yn y colegau addysg bellach ac mae dilyniant annigonol i gyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg.

59 Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau sy'n gysylltiedig â gwaith dysgwyr yn dda iawn. Caiff hyn ei gefnogi gan gysylltiadau â chyflogwyr lleol a'r bartneriaeth busnes addysg sydd wedi'u datblygu'n dda. Yn ddiweddar, enillodd Coleg Ystrad Mynach wobr fawreddog Beacon am ei waith mewn menter ar draws y cwricwlwm.

60 Mae darpariaeth addas ar gyfer datblygu'r rhan fwyaf o agwedd gwybodaeth a dealltwriaeth y craidd dysgu. Mae rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) mewn ysgolion a systemau tiwtora'r colegau yn sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd. Mae darpariaeth dda ar gyfer Cymru, Ewrop a'r Byd ar gyfer y lleiafrif o ddysgwyr sy'n ymgymryd â Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau ac yn y Rhaglen Astudiaethau Ewropeaidd a gyflwynir mewn dwy ysgol. Fel arall, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymru, Ewrop a'r Byd ymhlith darparwyr eraill wedi'i tanddatblygu. Mae'r ddarpariaeth ar draws y rhwydwaith ar gyfer datblygu ymagweddau a gwerthoedd y craidd dysgu yn dda yn gyffredinol.

61 Caiff dysgwyr ar draws y rhwydwaith ystod eang o brofiadau cyffredinol sy'n cynnwys un wythnos o leiaf o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith ar gyfer bron pob dysgwr 14 i 16 oed. Mae llawer o gyfleoedd hefyd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, esthetig a chreadigol. Anogir cyfranogi yn y gymuned yn dda, er enghraifft, trwy ystod dda o weithgareddau pontio, elusennol a chodi arian.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

62 Yn gyffredinol, mae dysgwyr 14 i 19 oed Caerffili yn derbyn gofal a chefnogaeth o ansawdd da, ond mae diffygion o ran ansawdd y cyfarwyddyd y mae dysgwyr yn ei dderbyn. Cânt fynediad at ystod briodol o wasanaethau cefnogaeth bersonol pan fo'u hangen. Mae gan ddarparwyr bartneriaethau da gydag ystod eang o asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau cefnogi a chyfarwyddyd. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o ddysgwyr ddigon o fynediad at gyngor a chyfarwyddyd diduedd wrth ddewis eu hopsiynau ar gyfer cyfnod allweddol 4 ac adeg ôl-16.

63 Mae'r rhwydwaith wedi gwneud cynnydd da o ran hyfforddi a datblygu hyfforddwyr dysgu a gyflogir yn ganolog sy'n gweithio'n dda gyda phobl ifanc yn y rhan fwyaf o ddarparwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddwyr dysgu yn darparu cefnogaeth bersonol effeithiol i ddysgwyr ar gyrsiau cydweithredol yng nghyfnod allweddol 4 a'r dysgwyr hynny mewn lleoliadau EOTAS. Mae'r hyfforddwyr dysgu hyn yn cynorthwyo llawer o'r dysgwyr i wella effeithiolrwydd eu dysgu. Fodd bynnag, maent yn gweithio yn

bennaf gyda dysgwyr llai abl neu ddysgwyr a allai gael eu dadrithio ac nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr 14 i 19 oed yn gwybod digon am eu hawl i gefnogaeth hyfforddwr dysgu. Mynediad prin sydd gan ddysgwyr mewn dysgu yn y gwaith i gefnogaeth hyfforddwyr dysgu.

64 Mae'r holl ddysgwyr yn elwa o gefnogaeth bersonol dda trwy drefniadau gofal bugeilio a lles personol sefydledig ym mhob darparwr. Mae ysgolion yn gwneud defnydd da o arolygon PASS i nodi anghenion dysgwyr[8]. Mae darparwyr wedi datblygu partneriaethau addas a systemau cyfeirio clir gydag ystod eang o wasanaethau allanol. Mae gan bron bob ysgol fentor ieuenctid am ddau ddiwrnod yr wythnos o leiaf. Mae'r rhain yn darparu ystod briodol o gyfleoedd dysgu anffurfiol a rhai nad ydynt yn ffurfiol. Gwerthfawrogir y gwasanaeth gan y dysgwyr hynny sy'n ei dderbyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwn ac nid ydynt yn gwybod digon am sut i'w gael. Mae'r ddau goleg yn darparu ystod eang a phriodol o wasanaethau cefnogi i ddysgwyr ac mae gan ddysgwyr o ysgolion sydd ar gyrsiau cydweithredol fynediad llawn iddynt.

65 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn derbyn cyngor a chyfarwyddyd o ansawdd addas wrth ddewis opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 ac adeg ôl-16 . Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn cael digon o gyngor a chyfarwyddyd diduedd i sicrhau eu bod yn dewis y llwybr mwyaf priodol. Yn y cyfnod ôl-16, mae dysgwyr yn ardal Islwyn, lle mae'r ddarpariaeth yn drydyddol, yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr am opsiynau ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr mewn rhannau o Gaerffili yn derbyn gwybodaeth ddigon da am yr ystod gyfan o gyfleoedd sydd ar gael iddynt adeg ôl-16, yn enwedig ynghylch opsiynau nad ydynt wedi'u hastudio o'r blaen neu'r rheiny sy'n cael eu cyflwyno gan ddarparwyr eraill.

66 Mae Gyrfa Cymru yn darparu cefnogaeth dda i athrawon a rheolwyr mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau defnyddiol i ysgolion o ran gwirio lleoliadau profiadau gwaith a threfnu gweithgareddau menter. Maen nhw'n gweithio'n dda fel bod anghenion disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn cyd-fynd â dewis dysgu yn y gwaith priodol ac yna maen nhw'n monitro eu cynnydd yn dda. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn canfod nid yw'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan swyddogion Gyrfa Cymru yn cyd-fynd â'u hanghenion a/neu ddyheadau.

67 Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth dda. Mae dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion yn cael cefnogaeth dda iawn, yn enwedig pan fyddant yn symud o'r ysgol i'w cam dysgu nesaf. Mae lleiafrif sylweddol o ddysgwyr mewn colegau yn cael cefnogaeth ychwanegol o ansawdd da mewn medrau sylfaenol. Mae dysgwyr ag anawsterau dysgu ac anableddau yn cael cefnogaeth unigol dda iawn yn y colegau.

68 Yn gyffredinol, mae trefniadau da i sicrhau lles dysgwyr pan fyddant ar gyrsiau cydweithredol. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn rhoi gwybodaeth dda i ddarparwyr eraill am bresenoldeb, ymddygiad a chynnydd dysgwyr pan fyddant i ffwrdd o'u hysgol eu hunain.

[8] PASS yw graddfa fesur electronig 'Ymagwedd Disgybl at Ei Hun a'r Ysgol' sy'n darparu proffil o hunan-dyb, galluoedd canfyddedig, dyfalbarhad, cymhelliant, ethig gwaith cyffredinol, ymagwedd at athrawon, eu hysgol a phresenoldeb, parodrwydd ar gyfer dysgu ac ymateb i'r cwricwlwm.

69 Mae gan yr holl ddarparwyr drefniadau priodol ar gyfer amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed, ac ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'r holl ddarparwyr wedi ymrwymo i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac ehangu cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

70 Mae Caerffili wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu Llwybrau Dysgu 14-19 oed mewn amgylchiadau cymhleth ac anodd o bosibl. Mae dau goleg addysg bellach yn yr ardal, dwy system wahanol ar gyfer addysg ôl-16 ac fe'i gwasanaethir gan ddau gwmni Gyrfa Cymru gwahanol. Dechreuodd ddatblygu Llwybrau Dysgu 14-19 oed yn gynnar ac o flaen datblygiadau cenedlaethol fel y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). Oherwydd materion brys yn y cyfnod ôl-16 ym mlaenau cwm Rhymni a basn Caerffili, dyma oedd blaenoriaeth gyntaf y rhwydwaith. O ganlyniad, bu mwy o gynnydd wrth wella safonau a darpariaeth gwricwlwm yn y cyfnod ôl-16 na fu yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r rhwydwaith yn briodol yn symud i ganolbwyntio ar gyfnod allweddol 4. Bu rhai datblygiadau cadarnhaol yng nghyfnod allweddol 4 wrth gynyddu nifer y cyrsiau galwedigaethol ar lefel mynediad a lefel 1 ac mae cynlluniau addas ar y gweill i gynyddu nifer y cyrsiau lefel 2.

71 Mae cyfeiriad strategol cadarn a gweledigaeth glir yn gyrru'r gwaith o gyflwyno Llwybrau Dysgu 14-19 oed. Bu cryn dipyn o gynnydd i sefydlu gwaith partneriaeth a darpariaeth gydweithredol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae dealltwriaeth ddiogel gan y rhwydwaith o'r heriau pellach y mae'n eu hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf ac mae ganddi syniad clir o ble mae am gyrraedd. Mae'r rhwydwaith wedi gosod sylfaen cadarn ar gyfer diwallu holl ofynion disgwyliedig y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru).

72 Mae'r awdurdod lleol yn ystyried y gwaith ar Lwybrau Dysgu 14-19 oed fel gwaith sy'n mynd i wneud cyfraniad sylweddol i adfywio yng Nghaerffili. O ganlyniad, mae wedi cyllido'r uned ddatblygu 14-19 oed am gyfnod o bum mlynedd o 2006 i 2011, gan ddefnyddio ariannu craidd yn hytrach na'r gyllideb addysg. Mae swyddogaeth glir a sylweddol i'r uned yn yr awdurdod lleol ac mae cynlluniau diogel i'w hymgorffori mewn gwasanaethau prif ffrwd. Mae'r uned yn cysylltu'n dda â meysydd gwasanaeth eraill mewn addysg a chydag adrannau eraill o'r cyngor.

73 Mae'r uned yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol i'r rhwydwaith. Mae gan aelodau staff yr uned gydbwysedd da o fedrau ac arbenigedd strategol a gweithredol. Mae'r uned yn darparu arweinyddiaeth o ansawdd da i'r rhwydwaith ac yn trefnu'r trefniadau ariannol a chludiant sy'n tanategu'r gwaith cydweithredol. Mae wedi cyfleu ei gweledigaeth yn llwyddiannus ac wedi ennill ymrwymiad oddi wrth y rhanddeiliaid perthnasol. Mae'r uned yn gweithio'n dda ac yn rhoi cyfeiriad, cefnogaeth a her.

74 Mae'r rhwydwaith wedi sefydlu trefniadau rheoli a chynllunio effeithiol ac effeithlon. Mae strwythur a phrosesau cynhyrchu tra diffiniedig ar gyfer rheoli strategol a gwneud penderfyniadau, gyda grwpiau gweithredol addas ar gyfer naill ai'r holl rwydwaith neu ar gyfer partneriaethau ardal.

75 Mae'r rhwydwaith wedi rhoi protocolau a chytundebau ar waith i danategu'r gwaith cydweithredol yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16 oed fel ei gilydd. Mae'r rhain yn cyfrannu i ymagwedd gyson at weithio cydweithredol yn gyffredinol, er bod ychydig o ysgolion yn amrywio o ran cadw atynt. O ran partneriaethau ôl-16 oed, mae amserlenni a phrosbectysau cyffredin yn tanategu'r gweithio cydweithredol. Mae trefn o fysiau a thacsis ledled yr ardal yn cefnogi gweithio cydweithredol ar draws y tair partneriaeth.

76 Mae'r holl ysgolion, y ddau goleg ac ychydig o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn cymryd rhan lawn yng ngwaith strategol a gweithredol y rhwydwaith. Cânt eu cynrychioli ar brif gorff gwneud penderfyniadau'r rhwydwaith ac mae aelodau staff gweithredol allweddol wedi'u cynnwys yn DEPNET[9], sy'n trefnu'r gweithio cydweithredol.

77 Mae cyfathrebu rhwng yr holl bartneriaid yn agored a thryloyw ac mae perthnasoedd yn dda yn gyffredinol. Mae'r holl ysgolion a'r ddau goleg yn cymryd rhan mewn cynllunio a chyflwyno cyrsiau cydweithredol i bobl ifanc 14 i 19 oed. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y cyrsiau galwedigaethol. Mae partneriaeth wedi'i hen sefydlu ac yn effeithiol yn ardal Islwyn. Fodd bynnag, nid oes llawer o weithio mewn partneriaeth rhwng yr ysgol 11 i 18 oed yn yr ardal hon a'r coleg. O ganlyniad, cyfyngedig yw'r dewisiadau sydd ar gael i fyfyrwyr dosbarthiadau chwech yn Islwyn. Yn ardaloedd blaenau cwm Rhymni a basn Caerffili, bu gwelliant sylweddol mewn gweithio mewn partneriaeth, er nid wedi cael ei ymgorffori'n llwyr eto yn niwylliant ychydig o'r darparwyr.

78 Mae'r darparwyr dysgu yn y gwaith yr ardal, gan gynnwys y ddau goleg, yn cymryd rhan lawn yn y rhwydwaith. Nid yw darparwyr eraill dysgu yn y gwaith sydd naill ai'n rhai cenedlaethol neu ranbarthol yn ymgysylltu llawer â'r rhwydwaith. Mae ychydig o ddarparwyr preifat dysgu yn y gwaith wedi dechrau datblygu partneriaethau gydag ysgolion, ond nid ydynt yn cynnwys niferoedd mawr o ddysgwyr. Mae'r rhwydwaith wedi ymrwymo i wella'r agwedd hon ar y ddarpariaeth ac mae'n gwneud ymdrechion boddhaol i oresgyn yr anhawster hwn.

79 Mae cyflogwyr yn ymgysylltu'n fwyfwy â gwaith y rhwydwaith. Mewn ysgolion, y prif ddull yw trwy brofiadau sy'n canolbwyntio ar waith. Yn ogystal, mewn lleiafrif o ysgolion, mae yna nifer o brosiectau cwricwlwm sy'n cynnwys elfen o gydweithio â chyflogwyr. Yn y cyfnod ôl-16, mae gan y ddau goleg gysylltiadau sefydledig a chynhyrchiol gydag ystod eang o gyflogwyr.

80 Mae trefniadau gweithio addas a chryn dipyn o gydlyniad rhwng y rhwydwaith a gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r gwasanaethau cymorth ieuenctid yn gwneud cyfraniad llawn ac effeithiol i'r rhwydwaith. Mae'r gwasanaethau'n gwneud cyfraniad arbennig i ddatblygu agweddau allweddol ar gyflwyno Llwybrau Dysgu 14-19 oed, er enghraifft trwy fentoriaid ieuenctid, darparu cyfleoedd anffurfiol a rhai nid ydynt yn ffurfiol, a gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc.

[9] DEPNET yw'r enw a roddir i'r grŵp o reolwyr cwricwlwm o'r ysgolion a'r ddau goleg.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

81 Mae'r rhwydwaith wrthi'n sefydlu systemau a gweithdrefnau cyffredin ar gyfer hunanarfarnu'r gweithgareddau'r rhwydwaith. Mae darparwyr yn sefydlu ymagwedd gytûn drwy waith hyrwyddwr ansawdd a datblygu rhwydwaith o ansawdd. Ar hyn o bryd, mae gan ddarparwyr unigol weithdrefnau mewnol da ar y cyfan ar gyfer hunanarfarnu, ond mae rhai gweithdrefnau ar gyfer arfarnu'r rhwydwaith yn newydd ac nid ydynt yn gwbl effeithiol eto.

82 Cynhyrchodd yr uned adroddiad hunanarfarnu trefnus ar gyfer yr arolygiad. Darparodd hwn werthusiad gonest a hunanfeirniadol o waith y rhwydwaith. Roedd yn cynnwys arfarniadau clir yn seiliedig ar feini prawf penodol a darparwyd tystiolaeth addas i gefnogi'r barnau. Fodd bynnag, ar gyfer rhai materion fel safonau, a chyngor ac arweiniad, ni roddwyd digon o sylw i sectorau heblaw ysgolion. Ar y cyfan, roedd yr adroddiad yn gywir o ran nodi cryfderau a gwendidau'r rhwydwaith. Cytunodd y tîm â dwy o'r chwe gradd a ddyfarnodd y rhwydwaith iddo'i hunan ond rhoddodd radd is i'r gweddill.

83 Mae fframwaith ansawdd priodol gan y rhwydwaith sy'n gosod cylch blynyddol cytûn ar gyfer cynnal gweithgareddau arfarnu ac am ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol a all lifo i'r prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Nid yw'r cylch yn gwbl weithredol eto. Mae'r rhwydwaith hefyd wedi cychwyn defnyddio dadansoddiad gwerth ychwanegol cyffredin ar gyfer gwaith ôl-16 yn y ddwy ardal bartneriaeth ar y cyd ag ysgolion 11 i 18 oed. Mae wedi cynhyrchu system holiadur cyffredin ar draws y rhwydwaith cyfan ar gyfer cael barn dysgwyr am eu cyrsiau, eu cyflwyniad ac ansawdd yr arweiniad maen nhw wedi'i gael. Mae fforwm yr awdurdod lleol i ddysgwyr mewn ysgolion wedi cynhyrchu gwybodaeth ddefnyddiol bellach. Ar hyn o bryd, nid oes gan y rhwydwaith yr holl wybodaeth y mae ei angen arno i lywio penderfyniadau strategol ynghylch ble i ddatblygu neu wella ansawdd y ddarpariaeth.

84 Mae datganiad hawl dysgwyr y rhwydwaith a'r protocolau a'r cytundebau manwl rhwng darparwyr yn nodi disgwyliadau clir i ddarparwyr, gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer monitro presenoldeb, perfformiad a chefnogaeth i ddysgwyr pan fydd darpariaeth gydweithredol. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhain mor effeithiol ag y gallent fod gan nad yw rhai darparwyr yn rhoi'r gofynion ar waith yn gyson. Mae olrhain presenoldeb, ymddygiad a pherfformiad dysgwyr ar gyrsiau cydweithredol yn dda yn gyffredinol yng nghyfnod allweddol 4, ond yn y cyfnod ôl-16 nid yw ychydig o'r darparwyr yn darparu'r wybodaeth ofynnol. Mae ychydig o ysgolion yn rhy araf i ymateb pan fyddant yn darganfod am ddiffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer eu dysgwyr mewn sefydliadau eraill. Mae cynlluniau cadarn wedi'u hen ddatblygu i gyflwyno system electronig gyffredin ar gyfer olrhain, ond mae gormod o amrywiaeth o ran defnyddio'r gweithdrefnau monitro ar hyn o bryd.

85 Yn gyffredinol, mae'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol (CDRhB) yn offeryn addas ar gyfer gwella cynllunio. Mae'n rhoi cyfeiriad strategol, yn cynnwys targedau clir ac yn gosod ystod eang o gamau gweithredu addas. Mae wedi'i seilio ar ddadansoddiad gofalus o'r ddarpariaeth bresennol ac mae'n nodi'n briodol y diffygion i fynd i'r afael â nhw a'r bylchau i'w llenwi. Mae'r cynllunio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i ddatblygu'n eithriadol o dda.

86 Mae'r rhwydwaith wedi comisiynu arolygiadau allanol priodol o agweddau allweddol ar ei waith, er enghraifft, ar weithio cydweithredol yn y cyfnod ôl-16, darparu hyfforddwyr dysgu ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 4 ar gyrsiau cydweithredol a darpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg ar wahân i yn yr ysgol Mae'r rhwydwaith wedi ymateb yn dda i argymhellion yr adroddiadau hyn.

87 Mae hanes da i'r rhwydwaith ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr o amser. Mae wedi sefydlu partneriaethau cydweithredol yn y cyfnod ôl-16 ac mae mewn sefyllfa dda i ddiwallu gofynion disgwyliedig y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). Y prif lwyddiant fu sefydlu gweithgaredd cydweithredol gwirioneddol yn seiliedig ar gynyddu cydymddiriedaeth, ymrwymiad a pharodrwydd i gydweithredu.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

88 Yng nghyfnod allweddol 4 mae gwerth am arian digonol sy'n gwella. Er bod safonau yn foddhaol yn gyffredinol, maen nhw'n dechrau gwella. Mae ystod ehangach o opsiynau galwedigaethol ar gael i ddysgwyr hefyd.

89 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 oed mewn ysgolion, yn y ddau goleg a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cynnig gwerth da am arian. Mae'r canlyniadau yn dda, mae gan ddysgwyr fynediad at ystod eang o opsiynau a bu cynnydd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ymhlith y rhai hynny a arhosodd mewn addysg a hyfforddiant amser llawn ar ôl Blwyddyn 11 o 72.6% i 79.2%.

90 Mae'r ddarpariaeth drydyddol yn ardal Islwyn yn gost-effeithiol iawn. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gweithio cydweithredol yn y ddwy ardal bartner arall wedi arwain at welliant sylweddol yn effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Dangosir hyn gan:

- cynnydd o ryw un rhan o bump er 2006 ym maint dosbarthiadau mewn dosbarthiadau chwech, er bod rhai dosbarthiadau bach o hyd, yn enwedig ym Mlwyddyn 13;
- dileu dyblygu diangen mewn dosbarthiadau chwech: er enghraifft, mae ysgolion wedi dileu 24 o ddosbarthiadau pwnc yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf lle gall partneriaethau eu darparu'n well; a
- chynnydd yn nifer y cyrsiau sydd ar gael ei ddysgwyr: er enghraifft, erbyn hyn mae 43 cwrs ar gael drwy'r partneriaethau ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n penderfynu aros yn y chweched dosbarth o gymharu â rhwng 11 a 23 chwrs mewn ysgolion unigol yn 2006.

91 Caiff y ddarpariaeth ym mhartneriaethau blaenau cwm Rhymni a basn Caerffili ei thanategu gan drefniant ariannol effeithiol o groes-dalu rhwng ysgolion a'r coleg sy'n golygu bod yr ariannu yn dilyn y dysgwr. Mae hyn yn golygu nad yw'r ddarpariaeth gydweithredol yn rhoi unrhyw bwysau ariannol ychwanegol ar ddarparwyr.

92 Mae buddsoddiad yr awdurdod lleol yn yr uned, sydd yn ychwanegol i'r gyllideb addysg flynyddol, yn cynrychioli ymrwymiad cryf gan yr awdurdod i wella'r ddarpariaeth i ddysgwyr 14 i 19 oed fel rhan hanfodol o'i strategaeth adfywio. Mae gwaith yr uned wedi'i integreiddio'n dda i wasanaethau'r awdurdod lleol i gefnogi gwella ysgolion.

93 Caiff yr uned ei hariannu gan grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdod lleol sy'n debyg o ran cyfran. Defnyddir tua thraean o gyllid yr uned ar gyfer costau cludiant y gweithgareddau cydweithredol. Mae'r rhwydwaith yn ystyried bod teithio dysgwyr ar y raddfa hon yn gam pontio angenrheidiol wrth roi Llwybrau Dysgu 14-19 oed ar waith ac mae ganddo gynlluniau addas i ostwng costau teithio, er enghraifft, trwy ddefnyddio model lle mae aelodau staff yn teithio yn hytrach na dysgwyr. Strategaeth y rhwydwaith yw buddsoddi yn y trefniant hwn yn y tymor byr, wrth gynllunio system fwy effeithlon yn y tymor hwy.

94 Mae gan ddarparwyr ddigon o aelodau staff cymwys a phrofiadol i gyflwyno'r cyrsiau i ddysgwyr 14 i 19 oed. Mae bron yr holl ddarparwyr wedi recriwtio neu wedi defnyddio aelodau staff penodol i gyflawni swyddogaethau arweinyddiaeth ar gyfer datblygiadau 14 i 19 oed. Mae ystod eang o hyfforddiant ar gyfer arweinwyr ysgolion a cholegau wedi cefnogi datblygu strategaeth 14-19 oed y rhwydwaith.

95 Yn gyffredinol, mae'r adeiladau drwy'r rhwydwaith yn addas at eu diben. Gwnaed defnydd da o gyllid cyfalaf Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol (CDRhB) i wella ansawdd yr adeiladau ac adnoddau yn y colegau ar gyfer cyrsiau cydweithredol galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4.

96 Gyda phob darparwr, yn gyffredinol, mae'r adnoddau dysgu yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda. Mae gan y colegau yn enwedig adnoddau arbenigol ar gyfer cyrsiau galwedigaethol a dysgu yn y gwaith sy'n debyg iawn i'r rheiny sydd ar gael yn y gweithle. Mae'r cytundeb ôl-16 oed i ariannu ddilyn y dysgwr ar ddarpariaeth gydweithredol yn sicrhau bod yr adnoddau yn cyd-fynd â nifer y dysgwyr.

97 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ar draws yr holl sectorau. Fodd bynnag, ac eithrio'r ysgol cyfrwng Cymraeg a rhai cyrsiau LearnDirect yn y colegau, ychydig o ddefnydd a wneir o TGCh i ddarparu cyrsiau mewn e-ddysgu sy'n cynyddu dewis a hyblygrwydd dysgwyr.

Ymateb y darparwr i'r arolygiad

Rydym yn falch bod yr arolygwyr wedi gweld bod Rhwydwaith Caerffili wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu Llwybrau Dysgu 14-19 oed.

Rydym hefyd yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad bod arweinyddiaeth ansawdd da iawn, cyfeiriad strategol cryf a gweledigaeth glir yn gyrru'r gwaith o gyflwyno'r cynlluniau 14-19, a bu cynnydd sylweddol dros gyfnod cymharol fyr o amser.

Nodwn hefyd fod yr arolygwyr wedi canfod bod llawer o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu wedi'i nodi'n gywir yn ein hadroddiad hunanarfarnu ni, a bod cynlluniau addas ar gyfer mynd i'r afael â nifer o argymhellion yr adroddiad eisoes ar waith. Ar ôl ymgynghori â'r holl bartneriaid yn y rhwydwaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru, byddwn yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad, a sicrhau y caiff ei ganfyddiadau eu hymgorffori yn y strategaeth tair blynedd yn y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol nesaf.

Rydym yn falch bod yr arolygwyr wedi gweld gweithgarwch cydweithredol gwirioneddol yn seiliedig ar gydymddiriedaeth gynyddol, ymrwymiad a pharodrwydd i gydweithredu, ynghyd â gwerth da am arian ôl-16 a gwella yn CA4, a hoffwn ddiolch i'r holl bartneriaid a gymerodd rhan i symud ymlaen yr agenda 14-19 oed yng Nghaerffili.

Hoffem ddiolch i'r tîm arolygu am y modd y gwnaethant gynnal yr arolygiad ac am eu sylwadau a'u hawgrymiadau cadarnhaol ynghylch sut i barhau'r cynnydd.

Atodiad 1

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd wyth arolygydd gyfanswm o 47 o ddiwrnodau yn arolygu safonau ac ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghaerffili. Roedd y tîm arolygu yn cynnwys enwebai, sef pennaeth uned ddatblygu 14-19 yng Nghaerffili.

Gwnaeth yr arolygwyr ystyried:

- y dystiolaeth o arolygiadau blaenorol Estyn o bob darparwr perthnasol;
- dogfennau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys Arolwg yn Seiliedig ar Dystiolaeth Caerffili;
- cynlluniau a strategaethau lleol, gan gynnwys y Cynllun Plant a Phobl Ifanc;
- data ar ganlyniadau dysgwyr a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â phobl ifanc 14-19 oed yr ardal, gan gynnwys gwybodaeth am y cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau a'u fframweithiau hyfforddi;
- data o bob darparwr am ymrestriadau cyfredol a data gwerth ychwanegol gan yr ysgolion, yr awdurdod lleol a'r colegau; ac
- adroddiadau hunanarfarnu o'r Rhwydwaith 14-19.

Cyfarfu aelodau'r tîm â:

- chynrychiolwyr o ddarparwyr cyn yr arolygiad i esbonio'r broses arolygu ac ymateb i unrhyw gwestiynau;
- uwch reolwyr mewn ysgolion uwchradd, uwch reolwyr yng Ngholeg Ystrad a Choleg Gwent a rheolwyr mewn sampl o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn cwmpasu trawstoriad o lwybrau galwedigaethol;
- dysgwyr 14 i 19 oed yn y darparwyr yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolygiad;
- rheolwyr sydd â chyfrifoldeb am y maes yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru ac arweinwyr y Rhwydwaith 14-19; a
- chynrychiolwyr o ddarparwyr a'r awdurdod lleol ar ddiwedd yr arolygiad i adrodd yn ôl ar y canfyddiadau dros dro ac ymateb i unrhyw gwestiynau.

Atodiad 2

Trefn rhwydwaith 14-19 Caerffili



Atodiad 3

Y tîm arolygu

Nigel Vaughan AEM	Arolygydd Cofnodol
Mererid Stone AEM	Arolygydd Tîm
Claire Morgan AEM	Arolygydd Tîm
Barry Rees AEM	Arolygydd Tîm
Eleanor Davies AEM	Arolygydd Tîm
Bernard Hayward AEM	Arolygydd Tîm
Jan Jones, Arolygydd Ychwanegol	Arolygydd Tîm
Ceri Weatherall, Arolygydd Ychwanegol	Arolygydd Tîm
David Eynon	Enwebai